O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1158 (Cy. 201)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Troetffordd Tua'r Gogledd ym Metws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Hydref 2023* |
| *Yn dod i rym* | *6 Tachwedd 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd pob cerddwr ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Troetffordd Tua'r Gogledd ym Metws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Tachwedd 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Tachwedd 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn cyfan o droetffordd tua'r gogledd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy sy'n ymestyn o'r fynedfa ogleddol i gilfan Coed Hafod hyd at fynedfa cyfleuster Cyngor Astudiaethau Maes Rhyd-y-Creuau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o droetffordd y gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Hydref 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru